Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bae Colwyn

**3 Douglas Road**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 7PE**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bae Colwyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bae Colwyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sarah Carstairs<br><br>Sian Davies |
| Person â gofal | Sarah Carstairs<br><br>Sian Davies |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 6 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:30 y.b. – 3:15 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/02/18 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 17/05/10 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/03/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Nid oes diffyg cydymffurfio.

## Argymhellion

A1. Gwella'r defnydd o wybodaeth asesu ac arsylwadau plant i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

A2. Sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso effaith unrhyw newidiadau i’r ddarpariaeth ar ddeilliannau’r plant

A3. Adeiladu ar y bartneriaeth gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi datblygiad a dysgu eu plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad ac yn ymgartrefu ac ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ar ddechrau sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser yn effeithiol. Maent yn symud o gwmpas yr ystod eang o brofiadau chwarae a'r amgylchedd dysgu yn hyderus. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i' ddweud. Mae bron pob plentyn wedi ffurfio perthynas bositif gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Mae bron pob plentyn yn gwybod y gallent fynd at ymarferwyr i ofyn am gymorth pan fo angen ac yn hyderus i wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi dechrau gwneud ffrindiau ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn sgwrsio â'i gilydd yn hyderus am sut i wneud cawl gan gydweithio a chymryd tro i dorri cennin. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn dda ac yn hapus wrth sgwrsio gyda ffrindiau a chydag ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â phrofiadau chwarae ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio ysbienddrych i arsylwi ar adar a chael hwyl yn canu a chyfateb lluniau o adar a welir. Mae bron pob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, er enghraifft wrth esgus coginio cacennau cri a defnyddio'r ffôn yn y tŷ bach twt i ffonio adref.

Mae bron bob plentyn yn dewis profiadau dysgu a chwarae yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn arbrofi gyda chamera digidol gan fynd o amgylch yr ystafell yn tynnu lluniau heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da ac mae ymarferwyr yn annog hyn yn effeithiol. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i wneud pethau drostynt eu hunain, er enghraifft wrth olchi eu dwylo, arllwys diod a didoli ffrwythau ar eu platiau. Yn ogystal, mae bron pob plentyn yn rhoi eu gwastraff yn y bin bwyd ar ôl gorffen a rhoi eu llestri budr yn y bwced yn barod i'w golchi.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Er bod medrau cychwynnol

llawer o'r plant yn isel yn y Gymraeg, maent yn gwrando'n dda ac yn ymateb i gyfarwyddiadau gyda lefel gynyddol o ddealltwriaeth yn fuan iawn. Mae mwyafrif y plant yn cyfathrebu'n effeithiol i fynegi eu teimladau ac i gyfathrebu â chyfoedion; er enghraifft, wrth chwarae rôl gydag ymarferydd, maent yn gwybod bod angen distawrwydd i roi doli i gysgu yn y tŷ bach twt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig wrth ymuno yn y canu ac yn ymateb yn briodol i storïau a ddarllenir iddynt. Fodd bynnag, ychydig o blant sy'n medru defnyddio geirfa ac ymadroddion yn naturiol yn eu chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos hoffter at lyfrau, yn enwedig y rhai a ddarllenir gan ymarferydd. Maent yn ymdrin â llyfrau gyda chywirdeb; er enghraifft, wrth ddarllen llyfr am roced yn yr ardal ddarganfod, mae'r plant yn adeiladu roced gan ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi ag offer marcio gyda rheolaeth gynyddol. Mae'r mwyafrif yn dechrau creu marciau pwrpasol gydag amrywiaeth o gyfryngau, er enghraifft wrth greu darlun o grempog fel rhan o ddathliadau o ddydd Mawrth Ynyd.

Mae mwyafrif y plant yn meithrin medrau rhifedd da trwy arbrofi ac archwilio. Mae mwyafrif yn cyfrif rhifau hyd at 10 yn llwyddiannus ac yn deall geirfa a chysyniadau mathemategol yn ddeallus fel siapau 2D. Maent yn disgrifio gwrthrychau bach a mawr yn briodol wrth arbrofi gyda theiars a darnau hir o bren o wahanol faint wrth greu amrywiaeth o adeiladwaith. Maent yn dewis deunyddiau perthnasol i ddatrys heriau mathemategol mewn sefyllfaoedd ymarferol gan ddefnyddio offer addas i archwilio sut i lenwi a gwagio tywod o gwpanau bach a mawr.

O ganlyniad i'r ardal greadigol wych, mae llawer o blant yn arbrofi gydag ystod o ddeunyddiau ac yn gwneud darluniau diddorol yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n dda i ymdrin â'r offer yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio siswrn i greu darluniau a modelau 3D allan o ddeunydd ailgylchu.

Mae bron pob plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, gan gynnwys eu medrau modur mân wrth rolio toes a chwblhau jig-so. Yn ogystal, maent yn arddangos rheolaeth gorfforol gadarn wrth symud yn fedrus wrth ymuno yn y dawnsio gwerin a symud a chân.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus ac yn eu defnyddio'n hyderus yn eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau o bethau sy'n eu diddori yn ogystal â chael llawer o hwyl yn rheoli tegan i symud ar hyd y llawr i gyrraedd ffrind.

## Gofal a datblygiad:

Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn cadw'n iach a diogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob ymarferydd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryder am blentyn neu os oes honiad yn erbyn ymarferwyr neu reolwyr. Mae nifer priodol o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac maent yn cofnodi unrhyw

ddamweiniau'n briodol gan sicrhau bod rhiant yn llofnodi'r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Mae'r holl ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo, fel y bo angen, ac i ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd neu newid clytiau. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno agwedd dda at hybu lles a hyder y plant a ddefnyddir fel rhan annatod o'r ddarpariaeth. Mae pob ymarferydd yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol ar gael iddynt ddatblygu eu medrau corfforol drwy gwblhau gweithgaredd ymarfer corff yn ddyddiol.

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd positif gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro a thrwy roi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr y plant.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn cael y gefnogaeth maent ei hangen. Mae gan y lleoliad weithdrefnau addas i gofnodi arsylwadau a chwblhau asesiadau pwrpasol er mwyn adnabod anawsterau iaith a chynllunio i roi cymorth yn ôl yr angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i greu ethos positif o fewn y lleoliad sy'n datblygu ymdeimlad o berthyn a chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant wrth wraidd y cynllunio. Mae ganddynt wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn wrth gynnig cynllunio hyblyg sy'n canolbwyntio ar anghenion a diddordebau'r holl blant. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant ailymweld â'r chwarae a'r dysgu i atgyfnerthu a datblygu'u medrau. Mae ymarferwyr yn cynnig darpariaeth effeithiol sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau ar ben eu hunain a gydag eraill. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ymarferol a phwrpasol i blant ddatblygu eu holl fedrau'n effeithiol, er enghraifft trwy goginio cawl yn yr ardal chwarae rôl i hyrwyddo ethos diwylliant Cymru. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh ym mhob rhan o'r ddarpariaeth ac mewn cyd-destunau perthnasol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu'n llwyddiannus wrth gefnogi'r dysgu a chwarae. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ar adegau ac yn ymyrryd yn amserol ac yn effeithiol i atgyfnerthu dysgu annibynnol. Mae'r holl

ymarferwyr yn rhoi sylw teilwng i'r broses chwarae a dysgu yn hytrach na'r cynnyrch terfynol wrth gefnogi plant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad gwerthfawr a hunanreolaeth gadarn wrth ymgymryd â phrofiadau a gweithgareddau pwrpasol.

Mae bron pob ymarferwr yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau llafar Cymraeg y plant trwy fodelu iaith raenus ac ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn gyson. Maent yn eu hannog i ddatblygu eu geirfa mewn ffordd hwylus, er enghraifft trwy ganu'r rhigwm 'adeiladu tŷ bach' wrth adeiladu tŵr allan o flociau.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o weithdrefnau arsylwi, asesu ac olrhain cynnydd y plant o'u mannau cychwyn. Maent yn defnyddio cwestiynau buddiol i gynnig adborth a chanmoliaeth werthfawr i'r plant ac i fonitro cynnydd. Er hyn, nid ydynt bob tro'n gwneud y defnydd gorau o ganfyddiadau arsylwi ac asesu er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae ymarferwyr yn cynnig adborth llafar priodol i rieni am gynnydd eu plant ac yn eu hysbysu'n rheolaidd am themâu a phrofiadau dysgu'r wythnos. Er hyn, nid ydynt bob tro'n amlygu sut gallent gefnogi eu plant a hyrwyddo eu datblygiad yn y cartref.

Mae ymarferwyr yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol, er enghraifft trwy ddarllen ystod dda o storïau am y byd ehangach a dysgu sut i barchu eraill o fewn y lleoliad a'r gymuned ehangach. Mae'r lleoliad hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft wrth goginio cawl a chreu cennin pedr ar gyfer dydd Gŵyl Dewi.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach y bydd angen eu dilyn. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio â'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol, er enghraifft drwy lanhau'r tywod oddi ar y llawr yn gyson er mwyn lleihau'r risg o lithro.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant ar y waliau ynghyd â ffotograffau ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r brif ystafell chwarae wedi ei threfnu'n ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llyfrau ac adnoddau wedi eu gosod i gyd-fynd â digwyddiadau arwyddocaol, fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael. Er enghraifft, mae offer coginio fel padell ffrio ar gael yn yr ardal chwarae rôl gyda thoes a rhesins er mwyn esgus creu crempogau a chacennau cri. Er bod yr amgylchedd chwarae a dysgu tu fewn wedi'i gynllunio'n dda, nid oes gan y lleoliad ardal allanol. Serch hyn, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ymweld â'r gymuned yn rheolaidd i gyfoethogi'r dysgu, er enghraifft ymweld â'r swyddfa bost a'r goedwig leol.

Mae'r offer a theganau i gyd o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae yn cael eu glanhau ac maent wedi creu rhestr wirio er mwyn monitro bod teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth arbrofi â deunyddiau wedi eu hailgylchu i greu modelau ac wrth adeiladu trwy ddefnyddio brigau pren a moch coed. Mae ystod eang o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, gemau a phosteri.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygiad a chynnydd plant. Maent yn creu ethos positif a chartrefol lle mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhwng arweinwyr ac ymarferwyr yn cryfhau'r ymdeimlad o dîm ac yn cyfrannu'n werthfawr at gynnig darpariaeth o ansawdd da. Mae bron pob ymarferydd yn deall eu rolau'n llawn ac mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel gan herio a chefnogi pawb i wneud eu gorau. Yn ogystal, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o fedrau unigol yr ymarferwyr i sicrhau darpariaeth werthfawr a phwrpasol ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn gosod amcanion clir i ymarferwyr i annog a chefnogi chwilfrydedd plant i ymgymryd â phrofiadau dysgu newydd. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae ymarferwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio buddiol yn gyson gydag ymarferwyr sy'n rhoi cyfle iddynt drafod eu hanghenion datblygu unigol.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau hunanwerthuso digonol sy'n adnabod cryfderau a'r hyn sydd angen ei wella. Maent yn gwneud defnydd boddhaol o ystod o dystiolaeth i werthuso gwaith y lleoliad. Er hyn, nid ydynt bob tro'n  gwerthuso elfennau pwysig o'r ddarpariaeth gan gynnwys yr addysgu a phrofiadau dysgu a chwarae yn ddigon cadarn.

Mae'r datganiad o ddiben yn amlinellu'n glir y gwasanaeth a gynigir. Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad. Mae'r arweinwyr yn cyflwyno agwedd dda at hybu lles a hyder y plant a ddefnyddir fel rhan annatod o'r lleoliad fel bwyta'n iach, symud yn egnïol a chanmol y plant yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau cadarnhaol gydag ystod dda o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant. Mae arweinwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth ac i lywio cyfeiriad clir o ran gwelliant. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas lwyddiannus gyda'r ysgol leol i drosglwyddo'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae arweinwyr wedi sefydlu perthynas dda gyda'r rheini ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gan gynnwys polisïau a digwyddiadau allweddol. Fodd bynnag, nid yw rhieni'n  derbyn gwybodaeth gyson am beth mae eu plant yn dysgu a sut gallant eu cefnogi adref.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/05/2022